

Nodyn i Egluro Polisi Cynlluniau Datblygu Unedol - Polosïau Gwastraff Ceisiadau Cynllunio ar Gyfer Gwastraff Peryglus



Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Eich cyf: Your ref
Ein cyf: Our ref

28 Mai 2004

Annwyl Gyfaill

Nodyn i Egluro Polisi Cynlluniau Datblygu Unedol - Polosïau Gwastraff Ceisiadau Cynllunio ar Gyfer Gwastraff Peryglus

Polosïau Cynllunio ar Gyfer Gwastraff

Byddwch yn ymwybodol bod y Cynlluniau Gwastraff Rhanbarthol yn awr wedi'u cwblhau a bod y rhan fwyaf o'r awdurdodau lleol wedi cadarnhau eu bod yn cymeradwyo'r Cynlluniau. Mae'r Cynlluniau hyn yn rhoi sylfaen strategol sicr i bolisïau gwastraff mewn cynlluniau datblygu er mwyn cynnwys y ddarpariaeth angenrheidiol ar gyfer cyfleusterau rheoli gwastraff newydd y bydd eu hangen os yw awdurdodau cynllunio lleol am gyrraedd y targedau a bennir gan Gyfarwyddbau Gwastraff yr UE.

Y cam pwysig nesaf yw i bob awdurdod cynllunio lleol gynnwys y rhannau hynny o'r Cynllun Gwastraff Rhanbarthol sy'n berthnasol i'w ardal. Yng nghyfarfod Grp Thechnegol Gwastraff Rhanbarthol y De-ddwyrain a gynhaliwyd yn ddiweddar, awgrymodd yr awdurdodau sy'n aelodau ohono y byddai'n fuddiol pe bai nodyn cyfarwyddyd yn cael ei ddosbarthu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru fel enghraifft o bolisïau Cynllun Datblygu Unedol (CDU).

Bydd angen rhagor o waith gan y Grwpiau Gwastraff Rhanbarthol i gytuno ar leoliad y cyfleusterau rheoli gwastraff ar lefel genedlaethol neu ranbarthol. Yn y cyfamser, fodd bynnag, mae'n hanfodol bod y Cynlluniau Datblygu Unedol yn rhoi ystyriaeth lawn i'r gwaith o gynhyrchu'r Cynlluniau Gwastraff Rhanbarthol a bod polisïau cynllunio defnydd tir digonol yn cael eu cynnwys cyn eu mabwysiadu. Ers tro bellach, rydym wedi bod yn cynghori'r awdurdodau lleol sydd ar fin mabwysiadu CDU y byddai angen cynnwys polisïau o'r fath unwaith y bydd y Cynlluniau Gwastraff Rhanbarthol wedi'u cwblhau.

Rydym yn amlwg yn ymwybodol y gallai'r penderfyniad i ddyrannu tir ar gyfer datblygiad o'r fath arwain at wrthwynebiad i'r CDU. Gan hynny, rydym wedi ceisio cyfaddawdu gan roi digon o arweiniad i ddarpar ddatblygwyr ym maes rheoli gwastraff, a rhoi digon o hyblygrwydd o ran dewis safle, ac osgoi polisïau penodol ar gyfer safleoedd a all arwain at wrthwynebiad sylweddol a fyddai'n gohirio penderfyniad i fabwysiadu'r CDU. Ystyrir mai'r lleoliadau mwyaf addas ar gyfer cyfleusterau rheoli gwastraff newydd yw safleoedd diwydiannol cyffredinol, nes ceir cytundeb ar leoliad cyfleusterau rheoli gwastraff newydd ar lefel ranbarthol neu genedlaethol, fel y nodwyd uchod. Gan hynny, os oes digon o le ar safleoedd diwydiannol sy'n bod eisoes, neu a gaiff eu creu yn y dyfodol, i gynnwys y cyfleusterau rheoli gwastraff sydd eu hangen i gydymffurfio â'r Cynllun Rheoli Gwastraff Rhanbarthol, dylai pob CDU gynnwys y polisi a ganlyn, a'r testun ategol a awgrymir, sy'n egluro'r canllawiau sylfaenol ar gyfer datblygiadau rheoli gwastraff yn y dyfodol yn y Cynlluniau Datblygu Unedol hynny sy'n debygol o fod yn dderbyniol ym marn Llywodraeth y Cynulliad.

Byddai safleoedd diwydiannol cyffredinol yn addas ar gyfer llawer o'r cyfleusterau rheoli gwastraff a gaiff eu datblygu yn y dyfodol gan gynnwys cyfleusterau prosesu a thrin gwastraff, gorsafoedd trosglwyddo a thrin gwastraff yn fecanyddol fiolegol o bosibl, compostio mewn tanc a threulio anaerobig. Nid yw safleoedd diwydiannol yn debygol o fod yn addas ar gyfer tirlenwi neu gompostio mewn rhenciau gan fod y prosesau hynny'n fwy addas ar gyfer ffermydd sydd am arallgyfeirio (awgrymir y byddai'n fuddiol cynnwys croesgyfeiriad at bolisïau priodol yn gysylltiedig â datblygu/arallgyfeirio amaethyddol sy'n darparu ar gyfer cynigion o'r fath mewn lleoliadau gwledig).

Polisi

CAIFF POLISÏAU AR GYFER CYFLEUSTERAU RHEOLI GWASTRAFF, GAN GYNNWYS GWAITH GWAREDU A THRIN GWASTRAFF, EU CANIATÂU AR SAFLEOEDD A RESTRWYD AR GYFER CYFLOGAETH B2 YM MHOLISÏAU EMP XX (gan eu croesgyfeirio â pholisïau cyflogaeth perthnasol)

Nid ydym am orfodi awdurdodau lleol i gynnwys polisïau penodol, ac os yw'r polisïau hyn yn cael eu cynnwys, ni ddylid ystyried y byddant yn dylanwadu ar farn unrhyw Arolygydd ar y CDU. Gall polisïau eraill, a all fod yn fwy addas ar gyfer amgylchiadau lleol, fod yn dderbyniol ar yr amod fod polisïau'r CDU yn darparu'n ddigonol ar gyfer y gofynion rheoli gwastraff. Mae swyddogion y Cynulliad wedi cyfarfod â nifer o swyddogion lleol yn ystod y misoedd diwethaf i drafod y polisïau y dylid eu cynnwys yn awr mewn CDU. Rydym yn fodlon parhau i gyfarfod â swyddogion unrhyw awdurdod lleol i drafod y polisïau hyn yn fanylach.

Ceisiadau Cynllunio ar Gyfer Gwastraff Peryglus

Rydym yn ymwybodol o oblygiadau'r newidiadau arfaethedig i'r ffordd y bydd gwastraff peryglus yn cael ei reoli pan fydd y Gyfarwydddeb Tirlenwi'n cael ei gweithredu. Mae'r llythyr hwn yn berthnasol yn gyffredinol oherwydd y materion sy'n codi, ond bydd o bwysigrwydd arbennig i Awdurdodau Cynllunio Lleol oherwydd y bydd cynnydd mewn ceisiadau cynllunio ar gyfer safleoedd sy'n trin ac yn rheoli gwastraff peryglus.

Fel y bydd llawer ohonoch yn gwybod, o 16 Gorffennaf 2004 ymlaen, bydd y Gyfarwydddeb Tirlenwi yn gwahardd yr arfer o waredu gwastraff peryglus gyda gwastraff nad yw'n beryglus mewn safleoedd tirlawni. Yn hytrach, bydd gwastraff peryglus a fwriadwyd ar gyfer tirlenwi yn gorfod cael ei gladdu mewn safle tirlenwi a neilltuwyd ar gyfer gwastraff peryglus, neu os yw'r gwastraff yn sefydlog ac yn anadweithiol, caiff ei

gladdu mewn cell ar wahân mewn safle tirlenwi cyffredin. Mae gwastraff sefydlog ac anadweithiol yn cynnwys, er enghraifft, y rhan fwyaf o ddefnyddiau asbestos, a gwastraff sydd wedi caledu neu wydrolï. Hefyd, o fis Gorffennaf 2004 ymlaen rhaid i wastraff peryglus gael ei drin cyn ei gladdu mewn safle tirlenwi oni bai nad fyddai unrhyw fudd ymarferol i hyn o ran bodloni amcanion y Gyfarwydddeb. Mae trin gwastraff yn golygu cymryd camau i leihau maint neu natur peryglus y gwastraff, ei gwneud yn haws i'w gludo neu ei adfer a gall gynnwys ei ddioli. O 16 Gorffennaf 2005 ymlaen, mae'r Gyfarwydddeb Tirlenwi yn gorfodi gofynion mwy caeth ar wastraff peryglus sy'n cael ei anfon i safleoedd tirlenwi, drwy bennu Meini Prawf Derbyn Gwastraff (WAC) a fydd yn pennu terfynau trwytholchi mewn safleoedd tirlenwi, a bydd angen trin gwastraff peryglus ymhellach cyn ei gladdu mewn safle tirlenwi.

Bydd y newidiadau hyn yn arwain at reoli gwastraff peryglus mewn ffordd fwy cynaliadwy. Y broses tirlenwi yw'r dull lleiaf derbyniol o reoli gwastraff. Yn ogystal â'r effaith ar yr amgylchedd, nid yw'n gwneud unrhyw ddefnydd ymarferol o wastraff, a chollir cyfle i adfer unrhyw werth sydd ynddo. Bydd y newidiadau hefyd yn effeithio ar y gallu i drin a gwaredu gwastraff. O ganlyniad, bydd llai o safleoedd ar gael i gymryd gwastraff peryglus ar ôl mis Gorffennaf eleni. Bydd mwy o alw hefyd i drin gwastraff peryglus, a bydd yn rhaid datblygu rhagor o gyfleusterau. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn gofyn i Awdurdodau Cynllunio Lleol ymateb yn gadarnhaol.

Gall Awdurdodau Cynllunio Lleol weld cynnydd mewn ceisiadau mewn ffyrdd arall hefyd. Mae'n bosibl y bydd angen i weithredwyr y safleoedd trwyddedig presennol gael caniatâd cynllunio ychwanegol i godi adeileddau newydd ar eu safleoedd, neu i'w haddasu, er mwy bodloni gofynion newydd y Gyfarwydddeb Tirlenwi. Gallant wneud ceisiadau am gyfleusterau trin gwastraff ar y safle i'w galluogi i galedu neu sefydlogi gwastraff peryglus.

Dylid prosesu ceisiadau o'r fath yn ôl y drefn bresennol. Dylai Awdurdodau Cynllunio lleol yn enwedig, ystyried yr angen i gynnal Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol. Byddai'n ddefnyddio pe bai Asiantaeth yr Amgylchedd yn cael eu hysbysu'n fuan o gynigion yn ymwneud â rheoli a thrin gwastraff peryglus (gofynnwyd i'r Asiantaeth hysbysu'r Awdurdodau Cynllunio Lleol o geisiadau tebygol os ydynt yn ymwybodol ohonynt). Dylid ystyried pob cais yn ôl ei deilyngdod cynllunio ei hun. Pan fydd cynllun datblygu sy'n cael ei fabwysiadu neu ei gymeradwyo yn cynnwys polisïau perthnasol, mae adran 54A o Ddeddf 1990 yn ei gwneud yn ofynnol i gais am ganiatâd cynllunio gael ei ystyried yn unol â'r cynllun, oni bai fod ystyriaethau perthnasol yn awgrymu'n wahanol.

Mae pryder ynglŷn â phrinder cyfleusterau a safleoedd, o leiaf yn y tymor byr, pan ddaw'r Gyfarwydddeb Tirlenwi i rym, ac na fydd modd ymdopi â'r holl wastraff peryglus y bydd angen ei waredu. Gallai oedi yn y broses o ystyried y ceisiadau perthnasol waethygu'r sefyllfa. Gan hynny, dylai Awdurdodau Cynllunio Lleol drin ceisiadau cynllunio, a dod i benderfyniadau, yn unol â'r gofynion uchod, cyn gynted ag y bod modd.

Sefydlwyd Is-grp Gwastraff Peryglus Cymru fel rhan o Fforwm Gwastraff Cymru, sy'n cynnwys Asiantaeth yr Amgylchedd, y diwydiant gwastraff, llywodraeth leol a chynhyrchwyr gwastraff, a chynhyrchwyd Cynllun Gweithredu Gwastraff Peryglus. Y pwyntiau gweithredu allweddol yw cynhyrchu cronfa ddata cynhwysfawr o'r cyfleusterau yng Nghymru ac i godi ymwybyddiaeth o'r problemau posibl. Ar hyn o bryd, ni ddisgwylir y bydd unrhyw safleoedd tirlenwi masnachol ar gyfer gwastraff peryglus yng Nghymru o fis Gorffennaf 2004 ymlaen. Mae'n debyg eich bod yn cofio'r Seminar a gynhaliwyd i drafod y materion hyn fis Medi y llynedd yng Nghaersws, Canolbarth Cymru. Mae'n amlwg y bydd y newidiadau yn y ffordd y bydd gwastraff yn cael ei reoli, a'r cynnydd

tebygol yn y gost o'i drin, yn effeithio ar y sefyllfa bresennol. Cynhelir adolygiad cynnar o Gynlluniau Gwastraff Rhanbarthol, mewn perthynas â darparu tir ar gyfer safleoedd rheoli gwastraff peryglus, fel mater o frys, er mwyn rhoi sylfaen cadarn i awdurdodau cynllunio lleol wrth iddynt baratoi eu Cynlluniau Datblygu Unedol ac wrth iddynt benderfynu ar geisiadau cynllunio.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau yn ymwneud â'r llythyr hwn, cysylltwch yn y Gangen Cynllunio Amgylcheddol (ffôn 029 2082 5731) ebost: planning.division@wales.gsi.gov.uk

Yn gywir

Kay Powell
Pennaeth yr Is-adran Cynullunio